


Mae'r RSPB wedi caniatáu'r llwybrau sydd ar y safle i chi eu mwynhau.
© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Trwydded RSPB AC0000813580.
Paths shown on site are granted as a permissive route by the RSPB for your enjoyment. © Crown copyright. All rights reserved. RSPB licence AC0000813580.

# Dewch i ddarganfod Ynys Lawd

# Discover South Stack



Mae clogwyni Ynys Lawd yn lle magu hollbwysig i Wylogod, Llurs a'r Pâl yn y gwanwyn.

The cliffs at South Stack are a vital breeding ground for Guillemots, Razorbills and Puffins in spring.

## Llwybr y Pâl

1.2 km (0.75 milltir), 30 munud ar droed

Graddiant: Hyd at 12%, Grisiau: 74

### Amodau ar y llwybr

**Mae grisiau cerrig serth i lawr at olygfan Tŵr Ellin. Mae llwybr gwastad a llydan at faes parcio Tŵr Ellin a lôn darmac ar lethr at y Hwb Ymwelwyr.**

### Disgrifiad

Cewch fwynhau golygfeydd godidog o'r arfordir anhygoel – heibio Cytiau Crynion Tŷ Mawr (Cytiau'r Gwyddelod) a thrwy garpedi o flodau gwyllion lliwgar yn y gwanwyn a'r haf. Mae Gwylogod a Llursod yn nythu ar y clogwyni yn y gwanwyn, a Brain Coesgoch yn plymio drwy'r awyr yn gyson.

### Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae meinciau gyda chefn arnynt ar hyd y daith. Mae Tŵr Ellin ar agor yn dymhorol ac mae grisiau tu mewn yn arwain at ardal wylio. Does dim grisiau o gwbl ar hyd darn o'r llwybr o Faes Parcio Tŵr Ellin, at y tŵr ac yn ôl, ac mae darn gwastad at flaen y tŵr.

## Puffin Trail

1.2 km (0.75 miles), 30-minute walk

Gradient: Up to 12%, Steps: 74

### Trail conditions

**There are steep stone steps down to Ellin's Tower viewpoint. There's a wide flat path to Ellin's Tower car park and a sloping tarmac road to the Visitor Hub.**

### Description

Experience amazing views of the dramatic coastline on this trail, which takes you by the ancient Tŷ Mawr hut circles and through swathes of pastel-coloured wildflowers in spring and summer. Guillemots and Razorbills nest on the cliffs in spring, and Choughs dive and swoop all year round.

### Good to know

There are benches with backs along the route. Ellin's Tower opens seasonally and there are stairs inside leading to a viewing area. There's an entirely step free section of this trail from Ellin's Tower Car Park, to the tower and back and a level approach to the front of the tower.

## Llwybr Gwas y Neidr

Pellter: 1.6 km (1 filltir)
Amser: 45 munud ar droed
Graddiant: hyd at 15%
Grisiau: llawer o risiau naturiol o wahanol uchder

### Amodau ar y llwybr

**Llwybr amrywiol gyda darnau ohono'n greigiog a serth gyda llwybr concrit llydan.**

### Disgrifiad

Ar hyd y llwybr yma, cewch weld golygfeydd anhygoel o Oleudy Ynys Lawd, Ynys Arw ac Ynysoedd y Moelrhoniaid. Wrth fynd heibio'r pyllau, efallai y gwelwch weision y neidr ar ddiwrnod cynnes. Gallwch weld Hebogiaid Tramor yma trwy'r flwyddyn.

## Dragonfly Trail

Distance: 1.6 km (1 mile)
Time: 45-minute walk
Gradient: up to 15%
Steps: many natural steps of varying height

### Trail conditions

**A varied trail with steep rocky sections and a wide concrete path.**

### Description

Taking in breathtaking views of South Stack Lighthouse, North Stack and The Skerries this trail takes you past our ponds where you may see dragonflies on a warm day. Peregrines can be seen here all year round.

## Cyfleusterau'r safle

**Os oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i helpu yn ystod eich ymweliad, cysylltwch â ni ymlaen llaw, neu gofynnwch pan fyddwch yn cyrraedd.**

Mae mynediad gwastad heb risiau i'r Hwb Ymwelwyr ac mae'r holl gyfleusterau ar yr un lefel. Mae dolen glyw yn y siop a'r caffi. Gall y Hwb Ymwelwyr fod yn lle swnllyd a phrysur, yn enwedig rhwng mis Mehefin a mis Medi.

Mae'n gallu bod yn lle ofnadwy o wyntog yma ar ben y graig.

**Crwydro**

Cofiwch ddarllen y disgrifiad i wybod beth yw arwyneb a graddiant pob llwybr i benderfynu p'un sy'n addas i chi. Mae rhannau serth a grisiau cerrig anwastad ar y ddau lwybr.

Am fanylion llawn am hygyrchedd, ewch ar safle **rspb.org.uk/southstack**

## Site facilities

**If there's anything we can do to help during your visit, please contact us in advance, or ask when you arrive.**

The Visitor Hub has level, step-free entry and all the facilities are on the same level. There is a hearing loop in the shop and café. The Visitor Hub can be noisy and busy, especially between June and September.

The clifftop location means the site can be extremely windy.

**Out and about**

Please read the trail descriptions for details of the surfaces and gradients so that you can decide if they're suitable for you. Both trails have steep sections with uneven stone steps.

For full details on accessibility, please visit **rspb.org.uk/southstack**

**Am fap cyffredinol i ymwelwyr, sganiwch y cod QR.**

**For a general visitor map, please scan the QR code.**

**Key/Allwedd**

- Golygfan / Viewpoint
- Llwybr anturus / Adventurous route
- Lle picnic / Picnic area
- Cŵn ar dennyn / Dogs on lead
- Golygfan dan do / Covered viewpoint

Amddiffyn cynefinoedd, arbed rhywogaethau a helpu i ddod â'r argyfwng byd natur a hinsawdd i ben.

Protecting habitats, saving species and helping to end the nature and climate emergency.


### Cadwch mewn cysylltiad

Gallwch gael y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau yn Ynys Lawd.

**RSPB Ynys Lawd,**

Caergybi, Ynys Môn LL65 1YH

**ebost: south.stack@rspb.org.uk**
**ffôn: 01407 762100**
**rspb.org.uk/southstack**

@rspbsouthstackynyslawd
@rspbsouthstack

### Stay connected

Keep up to date with the latest, news, events and information from South Stack.

**RSPB South Stack,**

Holyhead, Isle of Anglesey LL65 1YH

**email: south.stack@rspb.org.uk**
**tel: 01407 762100**
**rspb.org.uk/southstack**

@rspbsouthstackynyslawd
@rspbsouthstack



Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) yn elusen gofrestredig: Y rhif yng Nghymru a Lloegr: 207076, yr Alban: SCO37654 Pâl gan Andy Hay (rspb-images.com)ac Ynys Lawd gan Laura Kudelska (RSPB).

Royal Society for the Protection of Birds (RSPB) is a registered charity: England & Wales no. 207076, Scotland no. SC037654. 5802-24-25. Puffin by Andy Hay (rspb-images.com) and South Stack by Laura Kudelska (RSPB).

Ailgylchwch ar ôl defnyddio.
Please recycle after use.